

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **8 Mai 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-05/17: Presennol

Cadeirydd Cyng. Robert Cadwalader nes eitem 4-05/17. Ar gyfer gweddil y cyfarfod: Cadeirydd : Cyng Sian Williams; Cyng William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng Henry Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng Elizabeth Reagan; Cyng Elizabeth George; Cyng. Robert T Price; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Eirwyn Williams; Clerc – Dr Catrin Jones.

2-05/17 Ymddiheuriadau:

Cyng Wayne T Roberts

3-05/17: Datgan diddordeb

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

4-05/17: Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Tref

a. Ethol Cadeirydd 2017/18

Etholwyd Cyng Sian Williams yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017/18

O'r pwynt yma, Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng Sian Williams. Diolchodd ar ran y Cyngor i'r Cyng Robert Cadwalader am ei waith clodwiw yn Gadeirydd y Cyngor am 2016-17.

b. Ethol Is-Gadeirydd 2017/18

Etholwyd Cyng Elizabeth George yn is-Gadeirydd ar gyfer 2017/18.

c. Cyflwyno ffurflenni derbyn swydd gan y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Cyngorwyr

Yn dilyn etholiadau Cyngorau Cymuned 4 Mai 2017, etholwyd yn ddiwrthwynebiad cyngorwyr cymuned y Cyngor am dymor arall. Derbyniwyd ffurflenni derbyn swydd wedi'i llofnodio a'i tystio yn briodol gan y Cyngorwyr oedd yn bresennol. Rhoddwyd yr hawl i'r Cyng Wayne Roberts, oherywdd absenoldeb i gyflwyno ei ffurflen derbyn swydd i'r Clerc erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor. Yn ogystal cyflwynwyd ffurflenni derbyn swydd wedi'i llofnodi gan y Cadeirydd a'r is-Gadeirydd ar gyfer 2017/18

d. Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog

Yn unfrydol mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog fel sail ar gyfer 2017-18. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith yn ail wampio y Rheolau ar sail Rheolau Sefydlog gweithredol y Cyngor. Bydd y Rheolau Sefydlog yn cael eu cyhoeddi ar safle We y Cyngor.

e. Mabwysiadu'r Rheolau Ariannol

Yn unfrydol mabwysiadwyd y Rheolau Ariannol fel sail ar gyfer 2017-18. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith yn ail wampio y Rheolau ar sail Rheolau Ariannol gweithredol y Cyngor. Bydd y Rheolau Ariannol yn cael eu cyhoeddi ar safle We y Cyngor.

f. Adolygu stocrestr o asedau'r Cyngor

Derbyniwyd stocrestr o asedau'r Cyngor. Diolchwyd i'r Cyng Robert Cadwalader am baratoi y stocrestr. Yn unfrydol cadarnhawyd y stocrestr yn un cywir.

g. Cadarnhau Asesiad Risg y Cyngor

Derbyniwyd asesiad risg y Cyngor a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau gan y Clerc ar gyfer 2017/18. Penderfynwyd ychwanegu ato y cyfeiriad at ddiogelwch gwybodaeth y Cyngor a oedd yn cael ei gylchredeg yn electroneg, gan nodi y defnydd o gyfriniegirau ar beiriannau symudol gan aelodau. Yn unfrydol derbyniwyd yr Asesiad Risg . Bydd yr Asesiad Risg yn cael ei gyhoeddi ar safle We y Cyngor.

h. Cadarnhau gwarant yswiriant

Nodwyd bod angen adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor o 1 Mehefin ar gyfer 2017/18 . Bydd y polisi wedi'i warantu gan Maven Underwriting sydd yn gynllun yswiriant ar gyfer Cynghorau Lleol. Nodwyd bod nifer o eitemau ychwanegol wedi'i cynnwys yn rhad ac am ddim yn y polisi ar gyfer 2017/18.

Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor i adnewyddu y polisi gyda Maven Underwriting, ac er mwyn cael gostyngiad, i ymrwymo i'r cwmni am dair blynedd os byddai modd newid termau y polisi yn ôl yr angen.

i. Ethol aelodau'r is-bwyllgorau

Etholwyd yr aelodau isod i is-bwyllgorau y Cyngor ar gyfer 2017/18

i. Is –bwyllgor Cyllid

Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Robert T Price, Dr E Tudor Jones, Henry Jones, Robert Cadwalader

ii. Is-bwyllgo Cynllunio a Thrafnidiaeth

Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Wayne Roberts, Phil Jones, Wayne A Evans, Dafydd Lloyd

iii. Is-Bwyllgor Mwynderau

Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Henry Jones, William A Evans, Phil Jones, Eirwyn Williams

iv. Pwyllgor Grantiau

Holl aelodau'r Cyngor

v. Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth

Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Robert Cadwalader, Phil Jones, Elizabeth Regan, Eirwyn Williams

j. Ethol aelodau i gyrff allanol

Etholwyd yr aelodau isod i gyrff allanol ar gyfer 2017/18

i. Criccieth yn ei Blodau

Sian Williams a Dafydd Lloyd, Phil Jones fel eilydd pe bai'r cynrychiolwyr yn methu mynychu

ii. Pwyllgor yr Heddlu

Henry Jones

- iii. Un Llais Cymru
Cadeirydd a'r Clerc
 - iv. Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Trefferthyr
Sian Williams
 - v. Neuadd Goffa
Robert Cadwalader
- k. Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn 2017-18 a chyfarfod blynyddol 2018:
Cytunwyd ar y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfod cyffredin y Cyngor Llawn 2017-18 a chyfarfod blynyddol 2018, i'w cynnal am 7 yr hwyr yn Siambr y Cyngor Criccieth:

12 Mehefin 2017	10 Gorffennaf 2017	4 Medi 2017
2 Hydref 2017	15 Tachwedd 2017	11 Rhagfyr 2017
8 Ionawr 2018	12 Chwefror 2018	12 Mawrth 2018
9 Ebrill 2018	14 Mai 2018 (Cyfarfod Blynyddol)	

5-05/17 Cadarnhau cofnodion mis Ebrill 2017

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

6-05/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)

- a. Llywodraeth Cymru Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru - Cylchlythyr Ebrill 2017 (ebost 3 Mai 2017) –Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn “*yn paratoi cynllun defnyddio tir cenedlaethol, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, fydd yn pennu cyfeiriad ar gyfer y system gynllunio gyfan ac yn llywio penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol*” Roedd gwahoddiad i ymateb erbyn 21 Gorffennaf. Bydd y Clerc yn cylchredeg yr ymgynghoriad i aelodau'r Cyngor. Nodwyd mai'r “*adroddiad cwmpasu yw cam cyntaf arfarniad cynaliadwyedd integredig y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio datblygiad yr arfarniad cynaliadwyedd integredig, a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, o'i gamau cyntaf.*”

7-05/17: Gohebiaeth

- a. Llythyr oddiwrth Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol (ebost 21/04/2017)
Nodwyd bod y llythyr wedi ei ddsbarthu. Roedd yn ymateb i gwestiynnau neu bryderon a oedd wedi codi am ffioedd archwilio a materion eraill yn ymwneud ag archwiliad 2015/16 a oedd ar ddull newydd o archwilio. Nodwyd yn y llythyr “*Mae'r trefniadau newydd, mewn ymateb i wendidau, wedi cynyddu swm y gwaith mae archwilwyr yn ei gwblhau er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac mae hyn yn cael sgil effaith ar y ffi archwilio.*”

Roedd hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod y contract newydd i apwyntio archwilwyr o Loegr ar sail bod tystiolaeth o brofiad a gallu ganddynt i ddarparu gwasanaethau o fewn amgylchedd dwyieithog (Cymraeg/Saesneg).

Bob blwyddyn roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn asesu monitro ansawdd o waith ei cyflenwir archwilio. Fel rhan o'r ymarfer hwn, maent yn edrych ar faterion a godwyd gan gynghorau gan gynnwys pryderon ynghylch perfformiad archwilwyr. Eleni byddant yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Byddant hefyd yn ystyried ffioedd archwilio sydd y tu allan i'w disgwyliadau er mwyn deall y rhesymau am hyn.

- b. Un Llais Cymru :Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2017 (ebost 20/04/2017)
Nid oed gan y Cyngor unrhyw gynnig i rhoi gerbron cyfarfod blyneddol Un Llais Cymru
- c. Cofnodion Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian 3 Mawrth 2017
Yn dilyn arolwg gan y cwmni, nodwyd yr adroddiad (a oedd wedi ei gylchredeg) a'r cadarnhad nad oedd nam ar wyneb y groesffordd yng Nghriccieth lle bu y ddamwain.
- d. Ymgynghoriad Gwasanaeth Rheilffordd
Nodwyd bod manylion yr ymgynghoriad wedi ei gylchredeg – roedd nifer o gwestiynnau Cytunodd y Clerc i ddanfôn drafft ymateb i aelodau'r Cyngor am eu sylwadau yn tynnu sylw at rhai materion penodol – ee gofyn am well darpariaeth ar y trenau, medru prynu tocynnau ar lein a'u printio heb orfod talu cost post, y dymuniadau am drên mwy cyflym bob ffordd unwaith y dydd. Nodwyd hefyd nad oedd arwydd ar gyfer y Stesion yng Nghriccieth. Roedd yr ymgynghoriad yn gorffen ar 23 Mai.
- e. Cyngor Gwynedd – Penodi Aelod Pwyllgor Cymunedol (ebost 12/04/2017)
Roedd manylion wedi'i gylchredeg yn gwahodd cynnig un o aelodau'r Cyngor i wasanaethu fel 'Aelod Cymunedol' ar Bwyllgor Safonau Gwynedd (cyn belled nad oedd yr aelod hefyd yn aelod o Gyngor Gwynedd). Byddai yr aelod yn gwasanaethu hyd at yr etholiadau llywodraeth leol arferol nesaf. Fel arfer bydd y Pwyllgor yn cwrdd tua 4 gwaith y flwyddyn (er y gellir cynnal rhai cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen). Telir lwfans ar sail pob cyfarfod a fynychir, ynghyd â chostau teithio.
Penderfyniad: i gynnig enw y Cadeirydd yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedol.
- f. Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr 27 Mawrth 2017 (ebost 12/04/2017)
Nodwyd bod yr adroddiad wedi ei gylchredeg. Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddiwrt h y Cyng Robert Cadwalader ar ddiwyddiad i randdeiliaid yng Nghaernarfon ar 14 Mawrth er mwyn cyfrannu at ddatblygu 'Fframwaith Cyflenwi' i wella iechyd, gofal iechyd a lles pobl dros 50 oed ac sy'n hŷn. Bydd y Fframwaith yn rhan allweddol o strategaeth y Bwrdd Iechyd yn y tymor hwy, sef 'Byw'n Iach, Aros yn Iach' a bydd yn canolbwyntio ar hybu iechyd da, atal salwch a chynnig gofal a chymorth priodol i bobl dros 50 oed. Roedd nifer fawr wedi mynychu gan gynnwys

nyrsys, meddygon, gofalwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau o grwpiau eraill â diddordeb. Cafwyd cyflwyniadau da iawn gan gynrychiolwyr o Betsi Cadwaladr a oedd yn egluro eu hanawsterau o ran cyllid a rheoli. Yn ystod yr adran cwestiwn ac ateb roeddynt yn gwbl dryloyw ac roedd atebion y cwestiynau yn glir ac agored. Derbyniwyd yr holl gwynion ac awgrymiadau ac roedd y sesiwn yn ddefnyddiol iawn. Doedd 'na ddim llawer o gwynion. Roedd nifer o'r gynulleidfa eisiau adrodd eu profiadau eu hunain gyda pherthnasau a oedd yn dioddef o ddementia neu anabledd a'r cymorth roeddynt wedi derbyn gan y bwrdd iechyd neu sefydliadau elusennol. Roedd Betsi Cadwaladr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn, ond yn hynod o ddiolchgar i elusennau am eu cymorth i bobl dros 50 oed.

Daethpwyd i'r canlyniad y dylai'r llywodraeth gyflawni eu dyletswydd, ond bod gofal yr henoed hefyd yn ymdrech gymunedol. Roedd y gair llesiant yn cael ei ddefnyddio yn aml ac roedd gwirfoddolwyr, teuluoedd a ffrindiau yn chwarae rhan bwysig yn hyn.

- g. Gwahoddiad i Weithdy Blynnyddol Cyfranddalwyr Cyfleustodau Cymru a'r Gorllewin 17 Mai 2017 (ebost 18/04/2017)

Nodwyd y gwahoddiad i fynychu y gweithdy.

Penderfyniad: Nid oedd y Cyngor am ddanfôn cynrychiolydd.

- h. Cau Amryw Ffyrdd – Ffeiriau Criccieth ar 23/05/2017 a 29/06/2017

Nodwyd bod yr hysbysiad arferol wedi dod ar gyfer cau amryw ffyrdd yn y dref ar gyfer y Ffeiriau. Cytunwyd y dylid tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y posibilrwydd o gysoni lleoliad y ffeiriau ar gyfer y dyfodol, oherwydd roedd maint y Ffair a nifer y stondinau wedi lleihau yn y blynnyddoedd diweddar.

8-05/17: Ceisiadau Cynllunio

Nid oedd ceisiadau cynllunio wedi dod i law.

9-05/17 Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth-

Nid oedd y Grŵp wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, oherwydd roeddynt yn aros am gynlluniau oddiwrth y pensaer. Roedd y Clerc wedi cael cadarnhad y byddai rhain ar gael yn fuan, a chytunwyd i gynnal cyfarfod o'r Grŵp ar 23 Mai.

Nodwyd bod y Cyng Robert Cadwalader a'r Cyng Elizabeth George wedi cael cyfarfod cadarnhaol iawn yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr o Goleg Merion Dwyfor ac Ysgol Trefarthyr i drafod prosiect Heddwch i gofio canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Nodwyd bod prosiect monitro sbwriel ar draeth Morannedd yng Nghriccieth wedi cymeryd lle yn ddiweddar, wedi'i drefnu gan Brosiect Ecosytem Morwrol Llŷn.

10-05/17 Parcio yng Nghriccieth

Mynegwyd consyrn nad oedd y gwaith i osod llinellau melyn dwbl a oedd wedi cael eu cytuno drwy broses ymgynghori gan Cyngor Gwynedd wedi cael eu gosod yn ei lle eto, a bod hyn yn achosi pryder oherwydd y peryglon a oedd yn codi drwy barcio blêr yn y dref. Mi fyddai hefyd yn help i gael arwyddion clir ar gyfer y meysydd parcio yng Nghriccieth er mwyn annog pobl i'w defnyddio.

Penderfyniad: y dylai'r Clerc ysgrifennau at Gyngor Gwynedd i fynegi consyrn y Cyngor Tref ac i holi am amserlen i wneud y gwaith a holi am gwell arwyddion i'r meysydd parcio.

11-05/17 Goleuadau Nadolig

Nodwyd nad oedd rhagor o fanylion wedi ei dderbyn am gostau ychwanegol ar gyfer ehangu y goleuadau yn 2017.

12-05/17: Llwybr o Benaber i'r parc

Dim byd i'w adrodd – dal yn aros am gadarnhad am y gwaith gan Cyngor Gwynedd.

13-05/17: Torri gwair yn y dref

Nodwyd nad oedd y toriad gwair cyntaf wedi cymeryd lle ar Beachbank eto, a bod y Cyng Eirwyn Williams wedi tynnu sylw Cyngor Gwynedd at hyn. Roedd ateb annisgwyl wedi ei dderbyn gan y Cyngor i nodi bod y Cyngor wedi cwtdogi ar y nifer o doriadau i'r ardal yma o 4 i 3 y flwyddyn. Er bod y Cyngor Tref wedi cael nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd am dorri gwair yn y dref, a'r ffaith fod yna anfonlonrwydd gyda safon y gwaith, nid oedd y Cyngor Tref wedi cael ei hysbysebu am hyn. Yn ogystal, roedd y Cyngor yn dal i ddisgwyl amserlen oddiwrth Cyngor Gwynedd er mwyn trefnu y toriad gwair ychwanegol ar gost i'r Cyngor Tref. Roedd y Cyngor yn anfonlon iawn gyda'r sefyllfa ac eisioes wedi sgwennu at y Cyngor ynglŷn â'r mater er mwyn cynnig datrys y sefyllfa.

Penderfyniad: y Clerc i ysgrifennu eto i Cyngor Gwynedd.

14-05/17: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol

Dim byd i'w adrodd.

15-05/17:Cronfa John Trefor Roberts

Nodwyd bod y Clerc yn dal i aros am y cytundeb a ofynnwyd amdano, a bod diweddariad wedi dod ar y gyllideb gwariant ar gyfer Criccieth yn 2016-17. Nid oedd y Cyngor yn fodlon gyda'r sefyllfa.

Penderfyniad: i gyfeirio y mater i'r Is-Bwyllgor Cyllid. Rhoddwyd hawl i'r Pwyllgor dderbyn cyngor priodol.

16-05/17 Llwybrau Cyhoeddus

Roedd Y Cyngor dal yn aros am gadarnhad am y gwaith ar risiau Abereistedd gan Cyngor Gwynedd.

Yn ogystal roedd gohebiaeth wedi ei dderbyn oddiwrth aelod o'r cyhoedd bod angen sylw lori glanhau lôn ar Lôn Fel, o Bryn Awelon i lawr at Parciau Bach. Roedd y darn yma o ffordd wedi ei hail wynebu yn ddiweddar, ac roedd pryder y byddai yn dirywio yn aml heb gael sylw buan gan y Cyngor Sir. Roedd hefyd angen clirio cerrig o glawdd oedd wedi dymchwel ar ô li goeden ddod lawr.

Penderfyniad: Y Cyng Eirwyn Williams i dynnu sylw y mater at y Cyngor Sir.

17-05/17 Rheolydd Pensiwn – Cwblhau datganiad

Nodwyd bod y Clerc wedi cwblhau y datganiad ar ran y Cyngor.

18-05/17: Derbyniadau

- a. Praesept, taliad cyntaf (Cyngor Gwynedd, 2017-18) £17,000.00

19-05/17: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE)	£126.60 Siec 101057
• Cyflog y Clerc	£506.69 Siec 101058
• Archwiliad Mewnol Mr JD Roberts	£45.00 Siec 101059
• Yswiriant Blynnyddol (AON UK Limited)	£1486.35 Siec 101060

Rhoddwyd ganiatad i'r clerch i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Lun 12 Mehefin 2017.**

****Bydd y rhaglen yma yn cau 3 Mehefin 2017****